Siarter y Myfyrwyr

UNDEB MYFYRWYR
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
STUDENTS' UNION

Y mae Prifysgol Aberystwyth ac UMAber wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r siarter hwn, sy'n nodi'n glir yr hyn y gall Prifysgol Aberystwyth, yr Undeb, a'r myfyrwyr ddisgwyl oddi wrth ei gilydd.

Gyda'n gilydd, yr ydym yn ymrwymedig i greu cymuned ddysgu fyrlymus, ddiogel a chadarnhaol, lle mae gan yr holl fyfyrwyr y cyfle i gyflawni eu potensial i'r eithaf, a lle mae pawb yn cael eu trin mewn dull proffesiynol gyda pharch, urddas a chwrteisi o fewn i amgylchedd cynhwysol.

Fe fydd y **Brifysgol** yn…

- Buddsoddi mewn cyfleusterau ac adnoddau o'r radd flaenaf er mwyn cynnal amgylchedd dysgu byw.
- Darparu addysgu rhagorol sy'n cael ei arwain gan ymchwil staff.
- Rhoi adborth adeiladol, priodol a phrydlon.
- Trosglwyddo gwybodaeth glir a chywir am bob agwedd ar y profiad Prifysgol yn Aberystwyth.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn cael arweiniad academaidd priodol.
- Darparu addysgu, ymchwil a chymorth i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhoi i fyfyrwyr sgiliau perthnasol, trosglwyddadwy, ac uchel eu gwerth i gynorthwyo'u datblygiad personol a gwella'u rhagolygon am swydd.
- Cynnwys cynrychiolwyr a etholir gan fyfyrwyr yn bartneriaid cyflawn yn nhrefn y Brifysgol o wneud penderfyniadau.
- Darparu gwasanaethau cymorth hygyrch, ymatebol a chynhwysol i fyfyrwyr.
- Cyhoeddi gwybodaeth ariannol gyflawn a thryloyw ynglŷn â ffioedd dysgu.
- Ymateb yn rhagweithiol i lais y myfyrwyr.

Fe fydd **Undeb y Myfyrwyr** yn…

- Cynrychioli myfyrwyr o bob rhan o'r Brifysgol a thu hwnt.
- Darparu amgylchedd cyffrous a diogel sy'n gynhwysol i'r holl fyfyrwyr.
- Cefnogi ystod eang o chwaraeon, cymdeithasau a gweithgaredd gwirfoddoli.
- Rhoi cymorth, cynrychiolaeth, gwybodaeth a chyngor diduedd i fyfyrwyr.
- Cydweithio â myfyrwyr, y Brifysgol, alumni, a'r gymuned leol ac ehangach i wella bywyd myfyrwyr yn Aberystwyth
- Gweithredu'n ddemocrataidd a thryloyw, yn unol â'i chyfansoddiad ac arfer gorau.

Fe fydd y **Myfyrwyr** yn…

- Cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu personol ac yn bresennol ymhob sesiwn ddysgu.
- Mynd i bob arholiad ac yn cyflwyno gwaith mewn pryd, gan fanteisio i'r eithaf ar bob adborth, cyfarwyddyd a chyngor.
- Darllen ac ymgyfarwyddo â'r wybodaeth a roddir i fyfyrwyr, gan gynnwys e-bost y Brifysgol ac AberDysgu.
- Edrych ar yr amserlen yn rheolaidd er mwyn gweld a wnaed newidiadau i ddarlithoedd, seminarau ac arholiadau.
- Deall a chadw at reoliadau'r Brifysgol.
- Rhoi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw beth sy'n effeithio ar les a llwyddiant.
- Cadw cyswllt â chynrychiolwyr y myfyrwyr gan rannu'r ymrwymiad i wella'r profiad academaidd a bywyd Prifysgol.

Gyda'n **Gilydd** byddwn yn…

- Trin pawb â pharch.
- Parchu eiddo, offer, adnoddau, a gofodau addysgu/astudio'r Brifysgol.
- Gwneud y mwyaf o'n hamser ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Adolygwyd ddiwethaf ar 22/03/2017.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Yr Athro Elizabeth Treasure
Is-Ganghellor,
Prifysgol Aberystwyth

Bruce Wight
Swyddog Datblygu'r Undeb,
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth